**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

1af Chwefror, 2024.

**Presennol**

John Jones (Cadeirydd), Jess Williams (Penmorfa), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard; Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg); Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd);

**Ymddiheuriadau**

Iddon Edwards (Penmorfa); Michael Jones (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin)

**Datgan Buddiant**

Eitem Rhif 10: MLW, RJ, RP, GE, HP a JW (bu iddynt adael yr ystafell pan oedd yr dyrannu arian yn cymryd lle).

**Penderfyniadau**

Rhoddion Ariannol

Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol:

- Ambiwlans Awyr - £250.00
- Canolfan Gymdeithasol Golan - £300.00
- Cyfeillion Ysgol y Gorlan - £300.00
- Cylch Meithrin y Gorlan Fach - £300.00
- Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch - £300.00
- Neuadd a Chae Chwarae Garndolbenmaen - £300.00
- Neuadd Prenteg - £300.00
- Theatr Bara Caws - £250.00
- Urdd Eryri - £300.00
- Canolfan Pentrefelin - £300.00
- Neuadd Penmorfa - £300.00
- CFFI Dyffryn Madog - £300.00

Penodi Archwilydd Mewnol

Penderfynwyd benodi Hughes-Jones Dyson i fod yn archwilydd mewnol. Pawb yn gytûn.

Cais Cynllunio

C24/0022/36/DT - Bron Haul, Penmorfa, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9SD. Dymchwel lolfa haul, toiled, ystafell twb, ystafell fwyler a storfa goed a chodi estyniad unllawr newydd blaen a mân addasiadau i'r tŷ. Dim Gwrthwynebiad – ond i wirio hefo Cynghorwyr Penmorfa cyn ymateb.